# Ymgysylltu â grwpiau a'u rheoli drwy eich arweinyddiaeth ddawns mewn cyd-destun creadigol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag ymgysylltu â'ch cyfranogwyr yn eich sesiynau dawns a meddu ar y gallu i gymhwyso amryw o ddulliau arwain dawns sy'n cydbwyso anghenion dysgu unigolion a'r grŵp cyfan.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. ysbrydoli pobl ac ymgysylltu â nhw ar lefel y gallant ei deall ac ymuno ynddi
2. cyflwyno disgwyliadau, ffiniau a chyfleoedd rhwng yr arweinydd, y cyfranogwyr, y tîm cefnogi a'r gweithgaredd, gan fod yn glir ynghylch y nodau a'r prosesau y byddwch yn eu defnyddio gyda'ch grwp
3. defnyddio'ch gallu creadigol i gefnogi syniadau creadigol a dychmygus y cyfranogwyr yn eu dawns a rhoi eich arddull ddawns ar waith mewn ffyrdd priodol ar gyfer dysgu person-ganolog
4. cyfathrebu'n glir gan ddefnyddio sgiliau cyfathrebu geiriol ac aneiriol fel bod y cyfranogwyr yn eich deall, gyda chymorth perthnasol i'ch hunan, lle bo angen hynny, er mwyn gweithio'n effeithiol
5. cydnabod eich cydweithio ag eraill er mwyn cyflawni nodau'r rhaglen ddawns
6. ystyried pob agwedd ar ddarparu'ch rhaglen er mwyn ei haddasu yn ôl y galw
7. datblygu ymddiriedaeth, gwerthoedd a rennir a rolau clir trwy eich ymarfer gyda'r bobl rydych chi'n ymgysylltu â nhw
8. gallu cefnogi cyfranogwyr i ddatblygu ansawdd eu symudiadau a'u harddull ddawns
9. adnabod ac annog datblygiad y cyfranogwyr fel bod ganddynt amrywiaeth mwy datblygedig o sgiliau wrth ddawnsio

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gwahanol strategaethau addysgu i hwyluso dulliau arwain y dysgu er mwyn i'ch cyfranogwyr ddatblygu'r wybodaeth gorfforol sydd ei hangen arnynt ar gyfer yr arddull ddawns dan sylw
2. sut mae datblygu awyrgylch cynhwysol i annog ymgysylltu creadigol
3. pwysigrwydd eich cyflwyniad proffesiynol a'ch gallu i dderbyn cyfrifoldeb am eich grwp
4. egwyddorion dysgu person-ganolog
5. deinameg grwpiau, gan roi sylw penodol i sut mae llwyddo i reoli cyflymder dysgu ac ymgysylltu gwahanol ar gyfer unigolion mewn grwp
6. sut mae defnyddio ymholi a'ch menter greadigol i roi eich arddull ddawns ar waith gyda gwahanol gymunedau
7. dulliau o ddatblygu penderfyniadau ar y cyd wrth greu dawns gyda'ch gilydd
8. sut mae casglu, datblygu a saernïo syniadau dychmygus y cyfranogwyr i ddatblygu eu hymgysylltiad â'u dawns a'u hymholi beirniadol
9. pwysigrwydd siarad gydag unrhyw weithwyr cymorth sy'n cymryd rhan yn eich sesiynau a sicrhau eu bod yn deall eich nodau er mwyn iddynt eich helpu i'w cyflawni gyda'r grwp
10. pwysigrwydd eich persona wrth arwain dawns gan ddefnyddio cyfarwyddiadau lleisiol clir ac ysbrydoli eich grwp trwy eich adborth
11. iaith y corff a sut mae gwneud i bobl deimlo'n gyfforddus drwy eich ymddygiad geiriol a dieiriau
12. sut mae gwella a gwerthuso profiad creadigol cyfranogwyr drwy gydweithio â gweithwyr cymorth

## Geirfa